ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Statistical First Release

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau Ebrill 2019 - Mawrth 2020

**14 Gorffennaf 2020**
**SFR 76/2020**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau gyda thua 12,000 o oedolion a ddewiswyd ar hap bob blwyddyn. Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, gan ofyn am brofiadau a safbwyntiau pobl. Bydd rhai canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r canlyniadau yn y datganiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 ac ni ddylid eu drysu gyda chanlyniadau misol yr arolwg ffôn ar gyfer Mai 2020 ymlaen sy'n cael eu cyhoeddi ar wahân.[1]

Detholiad yn unig o'r canlyniadau sydd yn y datganiad hwn. Ceir canlyniadau llawer mwy o bynciau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn ein dangosydd canlyniadau rhyngweithiol, a chaiff dadansoddiad pellach o bynciau penodol eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn.

## Yn y datganiad hwn

- Gwaith teg
- Cynllunio ymddeoliad
- Boddhad â'r gwasanaethau cyhoeddus
- Amddifadedd





- Gwirfoddoli
- Cyfranogi mewn chwaraeon a mwynhad
- Ymddygiad ffordd o fyw
- Unigrwydd
- Y Gymraeg

- Defnydd o'r rhyngrwyd
- Boddhad gydag ysgolion
- Trafnidiaeth
- Gwahaniaethu yn y gwaith
- Gwasanaethau awdurdod lleol



## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn darparu'r prif ganlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20.

Ers 2016-17, mae'r arolwg wedi disodli, ac wedi cynnwys cwestiynau o Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru ac Arolwg Oedolion Egnïol.

Gellir gweld mwy o wybodaeth am y fethodoleg, y pynciau a'r diffiniadau yn adran Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd.

Mae'r holiadur llawn a chanllawiau'r holiadur yn rhoi rhagor o gyd-destun ynghylch pam yr ydym yn gofyn y cwestiynau hyn. Mae gwybodaeth gefndir ar gael ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol.

[1] Oherwydd y sefyllfa coronafeirws, o Ebrill 2020 fe ddechreuom redeg fersiwn ffôn misol o'r Arolwg Cenedlaethol yn lle'r fersiwn wyneb-yn-wyneb arferol. Cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf o'r adroddiad hwn ar 25 Mehefin 2020, gydag adroddiadau misol i ddilyn.

Ystadegydd: Siobhan Evans ~ 0300 025 6685 ~ arolygon@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd

Ymholiadau'r wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau'r cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Cyflwyniad

Yr Arolwg Cenedlaethol yw un o'r prif ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ei defnyddio i glywed barn a sylwadau pobl am eu bywydau yng Nghymru. Mae prif themâu'r arolwg bob blwyddyn yn cynnwys barn ar wasanaethau cyhoeddus megis iechyd, addysg a thrafnidiaeth ac hefyd barn ar lesiant pobl. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau o flwyddyn arolwg lawn ac ar yr un sail ag yn y blynyddoedd blaenorol ers 2016-17.


Ym mis Mawrth 2020 ataliwyd arolygon cymdeithasol wyneb yn wyneb oherwydd y sefyllfa coronafeirws, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol yn rhedeg fel arolwg ffôn ar hyn o bryd gyda ffigurau bob mis o waith maes yn cael eu rhyddhau yn y mis canlynol. Rydym yn gofyn rhai cwestiynau yn yr arolwg ffôn a ofynnwyd hefyd yn yr arolwg blwyddyn lawn (er enghraifft, bodlonrwydd gyda gofal meddyg teulu, synnwyr o unigrwydd, a statws cyflogaeth). O ystyried y newid i gyfweliadau dros y ffôn a'r newidiadau presennol mewn cymdeithas, mae'n bosibl y gall y canlyniadau yn adroddiadau misol 2020 fod yn wahanol iawn i'r rhai a gyhoeddwyd yn adroddiad 2019-20 a blynyddoedd cynharach.

## Gwaith teg




Gofynnwyd cyfres o gwestiynau am eu swydd i bobl a oedd yn gyflogedig (a'r rhai a oedd yn hunangyflogedig, ond a oedd yn gweithio i un cwmni yn bennaf). Mae Siart 1 yn dangos gwahaniaeth mawr rhwng y cyflogedig a'r hunangyflogedig o ran p'un a ydynt yn cael eu talu am **wyliau blynyddol**, **tâl salwch** ac **absenoldeb tadolaeth**.

**Siart 1: Telerau cyflogaeth yn ôl statws cyflogaeth**




Fodd bynnag, mae Siart 2 yn dangos bod yr hunangyflogedig (sydd yn bennaf yn gweithio i un cwmni yn unig) yn debygol o fod â threfniadau gwaith mwy **hyblyg** na gweithwyr cyflogedig, a bod y ddau grŵp yn gallu **manteisio ar gyfleoedd datblygu** mewn modd tebyg.


**Siart 2: Trefniadau gweithio yn ôl statws cyflogaeth**




## Cynllunio ymddeoliad


Yn 2019-20, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol gyfres newydd o gwestiynau am **ymddeoliad** a **chynllunio ar gyfer y dyfodol**. Mae **26%** o bobl yn ystyried eu bod wedi ymddeol, gydag **1 o bob 7** (14%) o'r grŵp hwn yn iau na'u hoed pensiwn swyddogol y wladwriaeth. Mae Siart 3 yn dangos y prif resymau pam fod pobl wedi ymddeol yn gynnar – gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.

**Siart 3: Rhesymau ar gyfer ymddeol yn gynnar**




Gofynnwyd i bobl 30 oed a throsodd a oeddent wedi dechrau **paratoi'n ariannol** ar gyfer ymddeol. Mae Siart 4 yn dangos bod gan **ddwy ran o dair** (65%) o'r grŵp hwn **bensiwn gweithle** y mae eu cyflogwr yn cyfrannu ato. Nid oedd **21%** wedi gwneud unrhyw gynlluniau ariannol ar gyfer y dyfodol.

**Siart 4: Paratoi ar gyfer ymddeoliad – oedolion 30+ oed**




## Boddhad â'r gwasanaethau cyhoeddus

Hefyd gofynnwyd i bobl am eu barn am waith Llywodraeth Cymru, ar raddfa rhwng 0 (anfodlon iawn) a 10 (bodlon iawn). Y sgôr gyfartalog a roddwyd **allan o 10** oedd **5.3**.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cael profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn ddiweddar pa mor fodlon oedden nhw â'r gwasanaethau hyn.

Roedd **89%** yn fodlon â'r gofal a gawsant gan eu **meddyg teulu**



Roedd **91%** yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd yn eu hapwyntiad diweddaraf yn **ysbyty'r GIG**



Mae'r canlyniadau hyn yn aros yn ddigyfnewid ers i'r cwestiynau gael eu gofyn yn 2018-19.

## Amddifadedd



Roedd **13%** o **oedolion** Cymru yn cyfrif fel rhai mewn **amddifadedd sylweddol**[2], (hynny yw, methu fforddio pethau sylfaenol fel mesurau atal lleithder yn y cartref). Mae amddifadedd oedolion wedi gostwng o **16%** yn 2017-18.

Roedd **16%** o oedolion **heb fod yn bensiynwyr** a **4%** o **bensiynwyr** wedi'u hamddifadu'n faterol, tra bod **6%** o rieni â **phlant** o amddifadedd materol.

[2] Llesiant cenedlaethol - dangosydd 19. Ceir mwy o fanylion am sut y cyfrifir amddifadedd materol yn y bwletin a gyhoeddwyd ar dlodi yn seiliedig ar ganlyniadau 2017-18 .


Roedd **68%** o'r bobl yn dweud **nad oeddent yn cael anhawster ymdopi â biliau ac ymrwymiadau cardiau credyd**. Mae hyn wedi aros yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

## Gwirfoddoli



**Gwirfoddolodd**[3] **26%** o bobl drwy roi o'u hamser am ddim i glybiau a sefydliadau. Yn fwyaf cyffredin, roedd pobl yn gwirfoddoli i elusennau, clybiau chwaraeon a grwpiau ysgol/ieuenctid, fel y dangosir yn Siart 5.

**Siart 5: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli, fesul clwb neu sefydliad**




## Cyfranogi mewn chwaraeon a mwynhad



Er mwyn monitro cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau a ofynnwyd ar ran Chwaraeon Cymru.

Roedd **59%** o'r bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd chwaraeon yn y pedair wythnos ddiwethaf. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell oedd **cerdded**

[3] Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 28.

**dros 2 filltir** (**31%** o bobl), yna mynd **i'r gampfa neu wersi ffitrwydd** (**17%**), **nofio dan do** (**12%**), a **loncian** (**9%**).

Roedd **11%** o'r oedolion **yn cymryd rhan** mewn gweithgaredd chwaraeon **tua unwaith yr wythnos, 7% ddwywaith yr wythnos,** a **32% o leiaf dair gwaith yr wythnos**.[4]

Gofynnwyd i bobl a oeddent wedi mwynhau gwneud chwaraeon yn yr ysgol. Dywedodd **55%** eu bod wedi mwynhau'r peth yn fawr, roedd **23%** yn ei fwynhau ychydig ac nid oedd **22%** yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol o gwbl.

## Ymddygiad ffordd o fyw

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau am y pum ymddygiad ffordd o fyw canlynol.[5] Ni chafwyd newid sylweddol yn y canlyniadau ar gyfer unrhyw un o'r 5 ymddygiad ers 2016-17.



Dywedodd **18%** o oedolion eu bod yn **smygu ar hyn o bryd**. Roedd smygu'n fwy cyffredin i'r rhai mewn cartrefi difreintiedig yn faterol, ac yn llai cyffredin ymhlith pobl dros 75 oed.




Canfuwyd bod **19% yn yfed mwy na'r swm a nodir yn y canllaw wythnosol** (y defnydd cyfartalog wythnosol uwchlaw 14 uned). Roedd yfed uwchlaw'r canllawiau wythnosol yn fwy cyffredin ymhlith dynion a phobl rhwng 45 a 74.



Roedd **25%** wedi dilyn y canllaw ac wedi bwyta o leiaf **5 dogn o lysiau a ffrwythau** y diwrnod blaenorol. Roedd pobl a oedd o dan amddifadedd sylweddol yn llai tebygol o wneud hyn.



Fe wnaeth **53%** fodloni'r swm canllaw o **150 munud o weithgarwch** yn yr wythnos flaenorol. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny na menywod. Roedd **33%** yn anweithgar (wedi gwneud llai na 30 munud yr wythnos flaenorol). Roedd anweithgarwch ar ei uchaf ymysg oedolion hŷn (75 oed neu hŷn) a phobl sy'n wynebu amddifadedd materol.




Roedd **61% dros bwysau neu'n ordew**; roedd **25%** yn **ordew**. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod yn rhy drwm neu'n ordew (67% o ddynion) na menywod (55%). Roedd gordewdra yn fwy cyffredin ymhlith y rhai 45-74 oed.

Dywedodd **25%** o oedolion fod ganddynt **bedwar neu bump** o'r **ymddygiadau byw'n iach** (peidio smygu, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau, bwyta 5 o ffrwythau neu lysiau, actif, pwysau iach); tra bod

[4] Llesiant cenedlaethol - dangosydd 38.

[5] 1) Dim smygu, 2) Dim yfed mwy na'r canllawiau wythnosol 3) Bwyta o leiaf bum dogn o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol 4) Bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol, a 5) cynnal pwysau iach.

**10%** wedi nodi **llai na dau o'r pum ymddygiad ffordd o fyw iach**[6]. Mae'r canlyniadau hyn wedi aros yn ddigyfnewid dros y pedair blynedd diwethaf.


Roedd **71%** o oedolion yn teimlo eu bod mewn **iechyd da neu dda iawn**.

## Unigrwydd



Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cyfres o gwestiynau i asesu lefelau unigrwydd. Yn seiliedig ar y rhain, canfuwyd bod **15%** o bobl yng Nghymru yn **unig**.[7] Roedd pobl mewn **amddifadedd materol** yn **fwy tebygol** o fod yn unig (cafwyd bod 41% o'r rheini mewn amddifadedd materol yn unig, o gymharu â 12% o bobl nad oeddent wedi'u hamddifadu'n faterol).

### Siart 6: Pobl sy'n unig yn ôl oedran




Mae Siart 6 yn dangos bod lefelau unigrwydd a gofnodir yn **gostwng** wrth i **oedran gynyddu.** Mae 20% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn unig o'u cymharu â 9% o'r rhai rhwng 65 oed a hŷn.

## Y Gymraeg

Y [Cyfrifiad](#) yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfran y bobl sy'n medru siarad Cymraeg; defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fonitro'r duedd ar gyfer oedolion rhwng bob Cyfrifiad.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, dywedodd **16%** o'r oedolion 16 oed ac yn hŷn eu bod yn gallu **siarad Cymraeg**. Dywedodd **10%** eu bod **yn siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, a'u bod yn ei siarad bob dydd.**[8]

[6] Llesiant cenedlaethol - dangosydd 3.
[7] Dangosydd Cenedlaethol 30 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyfrifwyd gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld.
[8] Llesiant cenedlaethol - dangosydd 36.


Yn gyffredinol, mae **5%** o bobl yn dweud y byddai'n well ganddynt siarad yn Gymraeg wrth siarad â staff mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Ymhlith pobl sydd â rhywfaint o allu siarad Cymraeg, mae **22%** yn dweud y byddai'n well ganddynt siarad yn Gymraeg â staff.

## Defnydd o'r rhyngrwyd



Roedd gan **88%** o **aelwydydd fynediad** at y rhyngrwyd yn y cartref. Dywedodd **90%** o oedolion 16 oed ac yn hŷn eu bod nhw eu hunain yn defnyddio'r rhyngrwyd (yn y cartref, yn y gwaith neu mewn man arall). Mae hyn wedi cynyddu'n raddol o 77% yn 2012-13.

**Siart 7: Gweithgareddau a wnaed gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf**





Dengys Siart 7 mai'r gweithgaredd mwyaf cyffredin a wnaed gan **96%** o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn ystod y tri mis diwethaf oedd defnyddio chwilotwr, tra mai sefydlu cyfrif ar-lein oedd y lleiaf cyffredin **(61%)**. Ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau, roedd 1% yn ychwanegol o bobl wedi cyflawni'r dasg gyda help rhywun arall.

## Boddhad gydag ysgolion

Gofynnwyd i rieni plant oedran ysgol am eu bodlonrwydd ag ysgol eu plentyn.



Roedd **90%** o'r rhieni yn fodlon gydag **ysgol gynradd eu plant**




Roedd **79%** yn fodlon gydag **ysgol uwchradd eu plant.**


Yn gyffredinol, roedd rhieni yn fwy bodlon â'r ysgolion cynradd nag ag ysgol uwchradd.

| Mae rhieni'n cytuno bod ….. | Ysgol gynradd | Ysgol uwchradd |
|---|---|---|
| … yr ysgol **yn paratoi** plentyn yn dda **at gam nesaf ei addysg** | **89%** | **77%** |
| … yr ysgol yn **helpu** eu plentyn i ddatblygu i fod yn unigolyn **cyflawn** | **92%** | **80%** |
| … **safon y dysgu** yn ysgol y plentyn yn uchel | **88%** | **72%** |

## Trafnidiaeth

Yn 2019-20, gofynnwyd i bobl hefyd am eu bodlonrwydd cyffredinol gyda gwasanaethau bysiau a threnau. Gofynnwyd iddynt ymateb hyd yn oed os nad oeddent yn defnyddio bysiau / trenau. Roedd **62%** yn fodlon â gwasanaethau bysiau[9] ac roedd **63%** yn fodlon â'r gwasanaethau trên[10].

**Siart 8: Pellter a deithiwyd i'r gweithle rheolaidd, yn ôl rhyw**




Gofynnwyd i bobl a oedd yn gweithio, gan gynnwys yr holl weithwyr cyflogedig a phobl hunangyflogedig, am eu **taith reolaidd** o'u cartref i'r gwaith. Dywedodd **71%** eu bod ar y cyfan yn teithio i'r **un gweithle** a **17%** i ychydig o weithleoedd gwahanol. Nid oedd gan **5%** arall weithle penodol, tra bod **7% yn gweithio gartref**.

Teithiodd cyfran debyg o ddynion a merched rhwng tair a phymtheg milltir i'r gwaith ond yn gyffredinol roedd dynion yn debygol o deithio pellter hwy na merched – teithiodd **30%** o **ddynion** fwy na 15 milltir o gymharu â **18%** o **fenywod** (Siart 8).

[9] Mae'r canlyniad hwn yn eithrio 32% o bobl a ymatebodd 'Ddim yn gwybod' neu 'Dim gwasanaethau bws lleol yn fy ardal i'.
[10] Mae'r canlyniad hwn yn eithrio 35% o bobl a ymatebodd 'Ddim yn gwybod' neu 'Dim gwasanaethau trên lleol yn fy ardal i'.


Y **dull cludiant** mwyaf poblogaidd o bell ffordd a ddefnyddiwyd i gyrraedd y gwaith oedd car neu fan **(75%)** - Roedd **13%** yn cerdded neu'n rhedeg, aeth **6%** ar fws neu goets, roedd **3%** yn teithio ar y trên a **2%** yn beicio.

## Gwahaniaethu yn y gwaith

Gofynnwyd i weithwyr am **wahaniaethu** a **bwlio** yn y gweithle. Ar y cyfan, dywedodd **10%** eu bod wedi profi gwahaniaethu. Er na ofynnwyd iddynt pa fath o wahaniaethu, roedd y canlyniadau'n amrywio yn ôl ethnigrwydd yr ymatebwr – roedd **9%** o **bobl wyn** (Cymraeg, Saesneg, Prydeinig etc.) yn bersonol wedi profi gwahaniaethu o gymharu â **28%** o bobl **dduon**, **Asiaidd** a **chefndiroedd lleiafrifoedd ethnig** eraill.

## Gwasanaethau awdurdod lleol

### Siart 9: Cytundeb bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel




Gofynnwyd i bobl am eu barn ar y gwasanaethau a gynigir gan eu hawdurdod lleol ac am eu hymwneud â'r awdurdod lleol. Cytunodd **47%** fod eu hawdurdod lleol yn darparu **gwasanaethau o ansawdd uchel.** Roedd hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol o **29%** o bobl ym **Mlaenau Gwent** i **58%** o bobl yng **Nghaerdydd,** fel y dangosir yn Siart 9.

Roedd **76%** o bobl yn teimlo y gallant ddarganfod pa **wasanaethau** mae eu hawdurdod lleol yn eu darparu a chytunodd **75%** eu bod **yn gallu cael gafael ar wybodaeth** am y Cyngor yn y ffordd yr hoffent.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 16 Mawrth 2020, pan cafodd y gwaith maes ei atal yn sgil y sefyllfa coronafeirws. Ers diwedd Ebrill 2020, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i gynnal dros y ffôn yn lle hynny. Mae canlyniadau'r arolwg ffôn yn cael eu cyhoeddi ar wahân bob mis.

Dewiswyd 24,883 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol ar gyfer Defnyddwyr Bach. Ymwelodd y cyfwelwyr â phob cyfeiriad a dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref. Yna, cynhaliwyd cyfweliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn ar amrywiaeth eang o faterion, ymddygiadau a nodweddion. Llwyddwyd i gynnal 12,393 o gyfweliadau a chafwyd cyfradd ymateb o 59%.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad technegol.

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau sy'n cael eu dyfynnu yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol yn unig. Gofynnwyd cwestiynau am rai o'r pynciau yn yr arolwg i is-sampl o ymatebwyr yn unig, ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill os nad oeddent yn berthnasol. Gall atebion fod ar goll am sawl rheswm, gan gynnwys gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny'n golygu fod y berthynas honno'n un achosol. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

### Adroddiad Ansawdd

Mae crynodeb o'r adroddiad Ansawdd ar gael, yn cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

O Ebrill 2020 mae'r sefyllfa coronafeirws wedi golygu ein bod wedi gwneud newidiadau i broses casglu data'r Arolwg Cenedlaethol. Mae adroddiad Ansawdd ar wahân ar gyfer yr arolwg ffôn wedi'i gyhoeddi sy'n trafod newidiadau technegol a materion cymharedd.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau .

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2017 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer [llythyr cadarnhau]. Y tro diwethaf i'r ystadegau hyn gael eu cynnal oedd asesiad llawn [adroddiad llawn] yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y dangosydd canlyniadau a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd
- diweddaru pynciau'r arolwg yn flynyddol i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi sy'n newid
- gwneud dadansoddiad atchweliad yn rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau diddordeb.

### Data cydraddoldebau

Argaeledd data ar gyfer dimensiynau cydraddoldeb:

| Dimensiwn cydraddoldeb | Casglwyd | Cynnwys yn y datganiad | Ar gael yn y dangosydd canlyniadau | Ar gael ar gais |
|---|---|---|---|---|
| Hil/ethnigrwydd | Do | Ydy | Ydy | Ydy |
| Grwpiau oedran | Do | Ydy | Ydy | Ydy |
| Rhyw | Do | Ydy | Ydy | Ydy |

| Dimensiwn cydraddoldeb | Casglwyd | Cynnwys yn y datganiad | Ar gael yn y dangosydd canlyniadau | Ar gael ar gais |
|---|---|---|---|---|
| Namau ac anabledd | Do | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Do | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| Crefydd neu gred | Do | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Do | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Do | Nac ydy | Nac ydy | Ydy |
| Hunaniaeth rhywedd | Na | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy |

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu data yn ystod y cyfweliad sy'n seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n defnyddio diffiniad meddygol o anabledd (“unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara am 12 mis neu fwy”).

Mae cwestiynau sy'n casglu data cydraddoldebau wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol fel y dangosir uchod, fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid oedd maint y sampl nac ansawdd y data yn ddigonol i roi dadansoddiad yn ôl y grwpiau hyn. Hefyd, oni bai bod gwahaniaeth sylweddol rhwng elfennau o grŵp yna efallai na fyddant yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Mae dadansoddiad o'r holl ganlyniadau ar gael ar gais.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10) (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer 15 o'r 46 dangosydd, ac mae 9 o'r rhain yn cael sylw yma:

3 Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw (dim smygu, pwysau iach, a chwrdd â chanllawiau ar ffrwythau a llysiau, yfed, a gweithgarwch corfforol).

19 Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol.

20 Canran y bobl sy’n dweud eu bod yn fodlon neu’n fodlon iawn yn eu gwaith.

28 Canran sy'n gwirfoddoli.

30 Canran sy'n unig.

35 Canran sy'n mynychu neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.

36 Canran sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn medru siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.

37 Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

38 Canran sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tair gwaith yr wythnos neu fwy.

Mae canlyniadau ar gyfer y dangosyddion hyn ar gael fel data agored ar StatsCymru. Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys un dangosydd cyd-destunol, sef, 'canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg' y cyfeiriwyd ato yn y ddogfen dechnegol neu'r adroddiad llesiant yn y cyswllt blaenorol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Y Diweddariad Nesaf

Detholiad bach o'r canlyniadau sydd yn y datganiad hwn. Bydd nifer o allbynnau mwy manwl, sy'n benodol i'r pwnc, yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn.

## Hoffem gael adborth gennych

Croesawir adborth am unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn: E-bost arolygon@llyw.cymru

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir yn wahanol.

OGL